OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1620 (Cy. 152)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A40 (Sanclêr i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mehefin 2013* |
| *Yn dod i rym* | *9 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd Llundain - Abergwaun (yr A48 a'r A40) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd, neu gyfyngu arno, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Gorffennaf 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A40 (Sanclêr i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:00 o'r gloch ar 9 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

**Ataliadau**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyffordd Meidrim, Sir Gaerfyrddin) (Codi Cyfyngiad) 2004**(3)** , Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyffordd Porth-y-rhyd, Sir Gaerfyrddin) (Codi Cyfyngiad) 2005**(4)**, Gorchymyn Cefnffordd (yr A48/A40) (Caerfyrddin, Dyfed) (Gorchymyn Codi Cyfyngiad 1983) (Amrywio) 2005**(5)**, Gorchymyn Cefnffordd (yr A48) (Foelgastell, Dyfed) (Codi Cyfyngiad) 1990**(6)** a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyffordd Bancyfelin, Sir Gaerfyrddin) (Codi Cyfyngiad) 2004**(7)** drwy hyn yn cael eu hatal dros dro o ran y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 27 Mehefin 2013

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru
**(3)** O.S. 2004/1215 (CY.131)
**(4)** O.S. 2005/1118 (Cy. 69)
**(5)** O.S. 2005/67 (Cy. 5)
**(6)** O.S. 1990/1137
**(7)** O.S. 2004/1411 (Cy. 142)

## ATODLEN 1

## HYD A LLED Y TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

### CEFNFFORDD YR A40

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr, gan gynnwys system gylchu Cylchfan B&Q.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr hyd at bwynt 339 o fetrau i'r gogledd-orllewin o Gylchfan Pen-sarn, gan gynnwys system gylchu Cylchfan B&Q.

### CEFNFFORDD YR A48

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

iv) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o Gylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

## ATODLEN 2

## HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

i) Hyd cyfan y gerbytffordd ar system gylchu Cylchfan Pen-sarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 339 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.